## Trosolwg

Mae'r safon hon ar gyfer yr holl ymarferwyr datblygu cymunedol sy'n gweithio ar draws gwahanol gymunedau ac yn darparu cysylltiadau a/neu gydlyniad rhwng cymunedau.

Mae'n cynnwys meithrin perthynas rhwng cymunedau amrywiol, cyrff cyhoeddus a sefydliadau eraill. Mae'n cynnwys ymdrin yn greadigol â'r tensiynau wrth weithio'n strategol ar draws ardal ehangach neu gyda mentrau mwy sy'n effeithio ar lawer o wahanol gymunedau.

Noder: Mae partneriaethau yn cynnwys partneriaethau a rhwydweithiau ffurfiol ac anffurfiol.

Trefnir y safonau datblygu cymunedol yn chwe maes allweddol:
• Un - deall ac ymarfer datblygu cymunedol
• Dau - deall cymunedau ac ymgysylltu â nhw
• Tri - gwaith grŵp a gweithredu ar y cyd
• Pedwar - cydweithio a gweithio ar draws sectorau
• Pump - dysgu cymunedol er newid cymdeithasol
• Chwech - llywodraethu a datblygu sefydliadol

Mae'r safon hon yn rhan o Faes Allweddol Pedwar

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1 asesu'r amgylchedd gwleidyddol, cymdeithasol ac economaidd newidiol sy'n effeithio ar eich cymuned eich hun
2 cyfathrebu manteision rhwydweithio o fewn a rhwng cymunedau a sectorau i gymunedau, asiantaethau cyhoeddus a sefydliadau eraill
3 cefnogi partneriaethau i gydweithio ar faterion lle maent yn cystadlu yn ogystal â rhai sy'n gyffredin iddynt
4 cefnogi datblygiad partneriaethau lle nad oes rhai'n bodoli ac mae o fudd eu sefydlu
5 cefnogi rhwydweithio anffurfiol sy'n hybu dialog a dealltwriaeth rhwng cymunedau ac ar eu traws
6 hybu gweithio ar y cyd sy'n herio arferion, rhagdybiaethau a stereoteipiau sy'n cau allan
7 cynyddu ymwybyddiaeth o rwystrau i ymwneud grwpiau cymunedol
8 cynnal systemau sefydliadol teg a chyfiawn yn eich sefydliad eich hun
9 hybu polisïau sefydliadol teg a chyfiawn mewn sefydliadau partner
10 ymgynghori ar weithgareddau a strategaethau a gynlluniwyd a allai effeithio ar gymunedau
11 hybu ffyrdd o gynnwys cymunedau sydd ar y cyrion a grwpiau cymunedol bychain mewn prosesau strategol ar gyfer rhwydweithio, dylanwadu a gwneud penderfyniadau
12 galluogi partneriaethau i gydnabod sut mae anghydbwysedd o ran pŵer ac adnoddau'n effeithio ar y berthynas rhwng cymunedau ac ar eu traws
13 defnyddio modelau ar gyfer gweithio rhwng cymunedau a fydd yn cefnogi datrys problemau ar y cyd ar draws cymunedau
14 ceisio cefnogaeth ac adnoddau i hwyluso dysgu, gweithio ac ymgysylltu â'r broses o wneud penderfyniadau rhwng cymunedau

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

Y rhesymeg a'r cyd-destun
1 sut mae democratiaeth gynrychioliadol a chyfranogol yn gweithio'n ymarferol
2 cysyniadau llythrennedd gwleidyddol, hawliau dinasyddiaeth a chyfrifoldebau yng nghyswllt llywodraethu
3 polisïau perthnasol y llywodraeth ar lefel leol, genedlaethol a rhyngwladol
4 y cyfraniad y gall amrywiol grwpiau annibynnol a chymunedau ei wneud i benderfyniadau sy'n effeithio ar gymunedau
5 sut mae anghyfiawnder, camwahaniaethu ac eithrio cymdeithasol yn effeithio ar fywydau unigolion a chymunedau

Ffactorau sy'n cefnogi gwaith effeithiol mewn partneriaeth
6 sefydliadau partneriaeth sy'n llunio, neu sy'n cyfrannu at, benderfyniadau sy'n effeithio ar gymunedau
7 sut gellir dylanwadu ar benderfyniadau neu argymhellion
8 amrywiaeth grwpiau a chymunedau
9 sut gall anghyfiawnder, camwahaniaethu ac eithrio cymdeithasol atal ymwneud â gwaith partneriaeth
10 modelau gweithio ar y cyd a'r goblygiadau o ran cynnwys y gymuned
11 goblygiadau adnoddau a chefnogaeth ar gyfer ymgysylltu â'r sbectrwm eang o randdeiliaid posibl
12 cylch oes partneriaethau, eu cyfyngiadau, a'r ffactorau a all leihau cynaliadwyedd

Technegau a dulliau
13 technegau cynhwysol a chyfranogol ar gyfer cynllunio strategaeth a chamau gweithredu
14 modelau cynhwysol a grymusol o eiriolaeth
15 systemau a gweithdrefnau er mwyn sicrhau atebolrwydd i gymunedau
16 strategaethau ymadael ar gyfer mentrau neu brosiectau sydd ag oes benodedig
17 systemau cyfathrebu a sefydliadol i gynnal gwaith strategol ar y cyd ar draws rhwydweithiau a phartneriaethau
18 technegau a fframweithiau ar gyfer monitro, adolygu a gwerthuso gwaith ar y cyd

## Gwerthoedd

Seiliwyd datblygu cymunedol ar gyfres o werthoedd sy'n ei osod ar wahân i weithgareddau eraill, a all fod yn gysylltiedig, yn y gymuned. Mae'r gwerthoedd hyn yn greiddiol i ddatblygu cymunedol, ac yn darparu sylfaen ar gyfer pob un o'r safonau. Y gwerthoedd yw;

1 Cyfiawnder cymdeithasol a chydraddoldeb
2 Gwrthweithio camwahaniaethu
3 Grymuso cymunedol
4 Gweithredu ar y cyd
5 Gweithio a dysgu gyda'n gilydd

Mae'r enghreifftiau canlynol yn dangos sut gallai pob un o'r gwerthoedd datblygu cymunedol lywio ymarfer yn y safon hon. Nid yw'r gosodiadau hyn yn rhan o'r gofynion asesu.

1 bod cyfraniad cymunedau a grwpiau yn cael ei werthfawrogi o ran cryfderau, sgiliau, gwybodaeth a phrofiad, yn hytrach nag adnoddau ariannol
2 bod mecanweithiau'n cael eu rhoi ar waith i gefnogi ymwneud â chynrychiolaeth cymunedau sydd ar y cyrion mewn rhwydweithiau a phartneriaethau
3 bod dylanwad cymunedau'n cael ei gryfhau trwy weithredu cydweithredol ac ar y cyd
4 bod prosesau a gweithdrefnau'n adlewyrchu tryloywder ac atebolrwydd i gymunedau
5 bod dysgu o amrywiol brofiadau pobl o fewn y rhwydwaith yn cael ei annog a'i gefnogi

## Cysylltiadau Allanol

# Cydlynu rhwydweithiau a phartneriaethau mewn modd strategol

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | NYA |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 28 Chwef 2015 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 28 Chwef 2018 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Learning Skills Improvement Service |
| **RCU gwreiddiol** | LSICD16 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gweithwyr Cymunedol Gwirfoddol, Grwpiau Cymorth Cymunedol |
| **Cyfres/Set** | Datblygu Cymunedol |
| **Geiriau Allweddol** | datblygu cymunedol; ymarferydd datblygu cymunedol; ymarfer datblygu cymunedol; gwerthoedd datblygu cymunedol; ymchwil datblygu cymunedol; ymgynghori ar ddatblygu cymunedol; grwpiau datblygu cymunedol; dulliau datblygu cymunedol |